

Adroddiad Gwerthuso Cynllun Iaith Gymraeg Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG - Awst 2015

1. Crynodeb

Mae'r adroddiad hwn yn gwerthuso gwaith Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG (NHSBT) i gyflawni ein hymrwymiaidau o dan delerau ein Cynllun Iaith Gymraeg wrth ddarparu ein gwasanaethau yng Nghymru rhwng 2009 a 2015.

Y prif wasanaethau a ddarparwyd gan Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yn ystod oes weithredol y Cynllun hyd yma yw:

- Casglu gwaed gan roddwyr gwirfoddol gan ddau dîm rhoddion gwaed, un wedi'i leoli yng Nghaernarfon, a'r llall yn Wrecsam;
- Cyflenwi cynhyrchion gwaed, meinwe a gwasanaethau cysylltiedig i ysbytai yng Nghymru o'n canolfannau yn Lerpwl a Manceinion;
- Annog pobl i roi organau a meinwe yn Lloegr, gwaed a bôn-gelloedd yng Ngogledd Cymru a Lloegr, drwy amrywiaeth o gyfryngau;
- Darparu cymorth i ganolfannau trawsblannu i sicrhau bod organau a roddir yn cael eu paru a'u dyrannu'n gyfartal.

Rydym yn cydnabod ein rôl i gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith rhoddwyr, teuluoedd rhoddwyr ac eraill sy'n defnyddio ein gwasanaethau yng Nghymru.

2. Cyflwyniad

Cafodd Cynllun Iaith Gymraeg Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG gymeradwyaeth lawn Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar 29 Hydref 2009.

Rydym wedi ymrwmo i gyflawni ein hymrwymiaidau o dan Ddeddf Iaith Gymraeg 1993. Mae Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG wedi mabwysiadu'r egwyddor y byddwn wrth gynnal ein busnes cyhoeddus yng Nghymru, i'r graddau sy'n briodol o dan yr amgylchiadau ac sy'n ymarferol, yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.

Mae'r adroddiad hwn yn gwerthuso ein perfformiad wrth weithredu'r Cynllun ers ei gyflwyno ym mis Hydref 2009.

3. Gwerthuso cynnydd

Mae ein Cynllun Iaith Gymraeg wedi bod yn weithredol ers mis Hydref 2009. Yn ystod y cyfnod hwnnw rydym wedi gweithio'n ddi-dor i ddarparu a, phan yn bosibl, i wella ein gwasanaethau dwyieithog i'n rhoddwyr a theuluoedd rhoddwyr, gan drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.

Mae pob gohebiaeth a anfonir at roddwyr yng Nghymru yn cael ei hanfon yn ddwyieithog, gyda'r fersiwn Gymraeg yn cael blaenoriaeth. Os, am resymau ymarferol, na allwn gynhyrchu fersiynau dwyieithog, anfonir dogfennau ar wahân yn y ddwy iaith, gyda'r fersiwn Gymraeg yn cael blaenoriaeth.

Mae'r tabl yn adran 5.4 yn dangos nifer y cwynion a gawsom ynghylch ein darpariaeth o wasanaethau yn y Gymraeg yn ystod oes y Cynllun. Mae nifer y cwynion wedi gostwng yn gyson yn ystod y chwe blynedd diwethaf, o 14 yn 2009/10 i un yn 2014/15. Yn ystod y cyfnod hwn rydym, ar gyfartaledd, wedi anfon mymryn yn llai na 200,000 o ohebiaethau i roddwyr yng Nghymru bob blwyddyn drwy bob cyfrwng.

Y maes sy'n achosi'r her fwyaf i ni yw mynd trwodd at staff sy'n medru'r Gymraeg ar ein llinell gymorth. Mae'r llinell gymorth i roddion yn wasanaeth sydd wedi cael ei roi allan ar dendr i ddarparwr allanol ac mae ganddo siaradwyr Cymraeg ar gael. Rydym wedi trafod y cwynion â'r darparwr ac rydym yn parhau i adolygu'r gwasanaeth. Byddwn yn ystyried beth arall ellir ei wneud i wella'r gwasanaeth hwn fel rhan o'r broses o lunio'r cynllun newydd y flwyddyn nesaf.

Mae'r tabl isod yn dangos ein cynnydd wrth weithredu'r gweithgareddau a gyhoeddwyd yn y Cynllun ar adeg ei gyflwyno yn 2009.

Rydym hefyd wedi manteisio ar y cyfle i ddefnyddio'r gwerthusiad hwn fel archwiliad o'r modd rydym wedi gweithredu'r Cynllun, cyn i ni lunio cynllun newydd i gydymffurfio â'n hymrwymiaadau o dan y Safon newydd yn 2016.

4. Adolygu gweithredoedd a weithredwyd yn ystod Y Cynllun

(Mae'r cyfeirnodau isod yn cyfeirio at y pwynt perthnasol yn y Cynllun)

Eitem	Manylion	Statws
3.1 Canllaw i staff ar lunio polisiau newydd	Mae ystyriaeth o effaith y Gymraeg ar bolisiau newydd yn cael ei hystyried ar hyn o bryd. Bydd canllaw ffurfiol yn cael ei ddatblygu a'i gyhoeddi	Gweithredwyd
5.2 Nifer digonol o staff sy'n siarad Cymraeg	Mae staff Cymraeg eu hiaith yn cael eu cyflogi eisoes, ond bydd angen adolygu hyn yn barhaus	Adolygu parhaus
5.3 Cyfeiriadur o staff sy'n siarad Cymraeg	Mae Cyfeiriadur ar gael	Gweithredwyd
5.4 Darparu bathodynau 'Iaith Gwaith' i staff Cymraeg eu hiaith sy'n gweithio gyda rhoddwyr	Mae'r bathodynau ar gael i staff	Gweithredwyd
6.1.2 Bydd gohebiaeth Gymraeg yn cael ateb yn Gymraeg	Mae gweithdrefnau ar gyfer hyn ar waith ac maent yn gweithio	Gweithredwyd
6.1.3 Gohebiaeth Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG gyda goblygiadau i'r cyhoedd yng Nghymru i gael ei chynhyrchu'n Gymraeg a Saesneg	Mae llythyrau gwahoddiad NBS yng Nghymru i roi gwaed yn ddwyieithog. Bydd llythyrau penodol i'r cyhoedd yng Nghymru'n unig yn ddwyieithog.	Gweithredwyd
6.1.4 Darparu cyfieithydd	Mae Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yn defnyddio staff mewnol Cymraeg eu hiaith a chyfieithydd allanol	Gweithredwyd
6.1.5 Canllaw i staff ar ddelio â gohebiaeth a ysgrifennwyd yn Gymraeg	Mae nodiadau canllaw wedi eu cyhoeddi ac mae staff wedi'u hyfforddi.	Gweithredwyd
6.2.3 Cyfarch ar y ffôn	Yn briodol ar gyfer swyddfeydd Gwaed a	Gweithredwyd

Eitem	Manylion	Statws
	Thrawsblaniadau'r GIG yng Nghymru'n unig.	
6.2.3 Cynnig dewis o iaith i alwyr	Yn briodol ar gyfer swyddfeydd Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yng Nghymru'n unig.	Gweithredwyd
6.2.3 Ffonio'n ôl o fewn 24 awr os nad oes siaradwr Cymraeg ar gael	Mae'r system yn weithredol drwy ein Canolfan Gyswilt Genedlaethol.	Gweithredwyd
6.2.4 Gallu i siarad Cymraeg ar y llinell gymorth i roddwyr	Mae siaradwyr Cymraeg ar gael ar y llinell gymorth i roddwyr	Gweithredwyd
6.2.6 Neges ar y peiriant ateb	Yn briodol ar gyfer swyddfeydd Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yng Nghymru'n unig.	Gweithredwyd
6.3. 2/3 Cyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru lle croesewir cyfraniadau gan y cyhoedd	Bydd Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yn sicrhau bod cyfieithydd cymwysedig neu staff sy'n siarad Cymraeg yn bresennol pan fydd angen.	Gweithredwyd
6.4.1 Gwefannau Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG	Mae dolen at Wasanaeth Gwaed Cymru ar ein gwefan Rhoi Gwaed. Mae dolen at wefan y Cynulliad Cenedlaethol ar wefan ODT	Gweithredwyd
6.4.2 Deunydd cyfatebol yn Gymraeg ar y wefan	Pan fydd taflenni neu gyhoeddiadau arall e.e. datganiad i'r wasg, yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefannau a bod fersiwn Gymraeg ar gael, bydd hwnnw'n cael ei gyhoeddi hefyd.	Gweithredwyd
6.4.3 Ymateb i negeseuon e-bost yn Gymraeg	Bydd negeseuon e-bost yn cael eu hateb yn newis iaith y sawl sydd wedi'u hanfon.	Gweithredwyd
6.4.4 Technoleg newydd a'r goblygiadau i wybodaeth yn y Gymraeg	Bydd Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yn ystyried goblygiadau'r dechnoleg newydd.	Fel fydd yn briodol
7.1.1 Logo dwyieithog ar ddogfennau corfforaethol	Fel mae dogfennau yn cael eu hail-ddylunio/ail argraffu bydd y logo dwyieithog yn cael ei ymgorffori.	Mae enw'r corff yn cael ei gyfieithu i'r Gymraeg o dan y logo
7.1.2 Canllawiau corfforaethol ar y defnydd o'r Gymraeg	Bydd adran ar sut y dylid defnyddio'r Gymraeg yn y brand Corfforaethol yn cael ei chynnwys yng Nghanllawiau Hunaniaeth Gorfforaethol Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG.	Gweithredwyd
7.1.3 Deunydd ysgrifennu lleol yng	Bydd deunydd ysgrifennu swyddfeydd lleol yng Nghymru yn ddwyieithog.	Gweithredwyd

Eitem	Manylion	Statws
Nghymru		
7.2.1 Arwyddion allanol ar eiddo Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG	Dim ond yn Wrecsam a Chaernarfon y mae gan Waed a Thrawsblaniadau'r GIG swyddfeydd, gyda dim ond ychydig o arwyddion. Nid yw'r swyddfeydd hyn yn agored i'r cyhoedd.	Gweithredwyd
7.2.2 Arwyddion i hysbysebu sesiynau rhoi gwaed	Bydd Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yn sicrhau bod unrhyw arwyddion i hysbysebu sesiynau rhoi gwaed yn ddwyieithog.	Gweithredwyd
7.3.1 Deunydd cyhoeddusrwydd printiedig	Bydd deunydd cyhoeddusrwydd yn cael eu hargraffu'n Gymraeg a Saesneg, a hynny mewn un ddogfen ddwyieithog pan fydd hynny'n ymarferol.	Gweithredwyd
7.3.3 Posterï	Bydd posterï hysbysebu'n ddwyieithog.	Gweithredwyd
7.3.4 Erthyglau yn The Donor	Bydd erthyglau am Gymru sy'n ymddangos yn The Donor, yn ddwyieithog	Gweithredwyd
7.3.4 Cardiau rhoddwyr	Bydd rhoddwyr gwaed sy'n byw yng Nghymru yn cael cardiau rhoi gwaed dwyieithog. Bydd rhoddwyr organau sy'n byw yng Nghymru sy'n cofrestru ar y we neu'r Llinell Rhoddwyr Organau'n cael cerdyn dwyieithog.	Gweithredwyd
7.4.1 Ffurflenni gwybodaeth	Bydd Holiaduron Iechyd Rhoddwyr, taflenni diogelwch gwaed a gwybodaeth arall i roddwyr yng Nghymru yn ddwyieithog. Mae ffurflen Caniatâd – Rhodd Organau Caled a Meinwe yn cael ei gwblhau gan y Cydlynwyr Rhoddwyr Organau drwy drafodaeth gyda theulu'r rhoddwr. Mae fersiwn dwyieithog o'r ffurflen ar gael i deulu'r rhoddwr, ond dim ond yr un Saesneg fydd yn cael ei gwblhau a'i ddefnyddio ar gyfer dibenion gweithredol.	Gweithredwyd
8.1.1 Datganiadau i'r wasg	Cyhoeddir datganiadau Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG i'r wasg yn unol â dewis iaith y cyfrwng sy'n eu cael.	Gweithredwyd
8.1.2 Arddangosfeydd, arddangosiadau, cyflwyniadau	Bydd arddangosfeydd, arddangosiadau, cyflwyniadau parhaol / dros dro yn ddwyieithog.	Gweithredwyd
8.1.3 Argaeledd cyfieithydd Cymraeg gan Waed a Thrawsblaniadau'r GIG	Bydd Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yn darparu llefarydd Cymraeg ei iaith neu gyfieithydd; darperir hyfforddiant lle bydd angen.	Gweithredwyd
8.1.4/5 Ymgyrchoedd a deunydd	Bydd ymgyrchoedd sydd wedi'u hanelu at	Gweithredwyd

Eitem	Manylion	Statws
cyhoedduswydd wedi'u hanelu at Gymru yn unig	Gymru'n unig yn ddwyieithog.	
8.15 Arolygon a gynhelir yng Nghymru yn unig Bydd arolygon a gynhelir yng Nghymru yn ddwyieithog	Arolygon a gynhelir yng Nghymru yn unig Bydd arolygon a gynhelir yng Nghymru yn ddwyieithog	Gweithredwyd
8.2.1 Hysbysiadau a hysbysebion recriwtio	8.2.1 Hysbysiadau a hysbysebion recriwtio Bydd hysbysebion a hysbysiadau o'r fath yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog fel yr amlinellwyd.	Gweithredwyd
9.1.2 Darparu uwch reolwr i redeg y Cynllun	Bydd Penny Richardson, Rheolwr Iaith Gymraeg, yn rhedeg y Cynllun.	Mae Neil Phillips, Pennaeth Cyfathrebu Brand yn awr wedi ymgymryd â'r rôl hon
9.1.3 Gwybodaeth i staff yng Nghymru sy'n amlinellu eu rhwymedigaethau	Bydd canllawiau'n cael eu paratoi a'u cyhoeddi.	Gweithredwyd
10 Strategaeth Sgiliau Ieithyddol	Bydd strategaeth yn cael ei datblygu.	Rydym yn adolygu sgiliau iaith Gymraeg ei staff i sicrhau eu bod yn ateb anghenion ein rhoddwyr
10.3 Cywiro diffygion ieithyddol	Ar ôl canfod diffygion o'r fath, bydd Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yn ymdrechu i'w cywiro trwy recriwtio neu hyfforddi, gan sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion o'r fath ac anghenion gweithrediadau sylfaenol.	Adolygu parhaus. Rydym wedi adolygu ein gwasanaethau ac wedi ymateb i unrhyw gwynion. Mae nifer y cwynion wedi gostwng yn ystod oes y Cynllun gyda dim ond un gŵyn y llynedd.
10.4 Canllawiau ar y Cynllun i reolwyr	Bydd canllawiau'n cael eu paratoi a'u cyhoeddi	Gweithredwyd

Eitem	Manylion	Statws
10.6 Gallu ieithyddol	Bydd Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yn ystyried hyn, pan yn briodol, ac yn ei gydbwyso yn erbyn niferoedd digonol o staff.	Gweithredwyd
10.7.1 Cefnogi staff i ddysgu Cymraeg	Mae Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yn annog pob math o ddatblygiad personol. Mae Cyfrifon Dysgu Annibynnol ar gael i bob aelod o staff y GIG sy'n dymuno dilyn cyrsiau pellach.	Gweithredwyd
10.7.2 Sicrhau bod siaradwyr yn rhugl	Os yw swydd wedi'i nodi fel un lle mae angen siaradwr Cymraeg, bydd Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yn gweithredu ar hyn trwy reolwyr llinell	Gweithredwyd Rydym yn parhau i adolygu hyn ac yn ddiweddar rydym wedi recriwtio Nyrs Arbenigol mewn Rhoi Organau sy'n medru Cymraeg
10.7.3 Ariannu ffioedd cyrsiau	Os yw swydd ddisgrifiad wedi nodi bod yr angen i siarad Cymraeg yn ofynnol mewn swydd ac fel rhan o'r fanyleb personol, sicheir bod arian yn cael ei darparu	Gweithredwyd
11.1 Contractwyr	Bydd contractwyr sy'n gweithio yng Nghymru yn cael eu hysbysu o Gynllun Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG	Gweithredwyd
11.2 Dogfennau tendro	Bydd y tendrau hynny sy'n effeithio ar Gymru yn cynnwys adran ar y Cynllun ble'n briodol.	Gweithredwyd
11.3 Canllawiau i gontractwyr	Bydd canllawiau'n cael eu paratoi a'u cyhoeddi	Gweithredwyd

5. Monitro perfformiad

5.1 Nifer y staff sy'n siarad Cymraeg

Ar hyn o bryd mae gennym 13 aelod o staff sy'n siarad Cymraeg yn rhugl a dau sydd â rhywfaint o sgiliau yn y Gymraeg.

Hefyd, mae gan y contractwr sy'n darparu cyfleusterau ein Canolfan Gyswllt Genedlaethol ddau siaradwr Cymraeg rhugl ar ei staff sy'n gyfrifol am ein llinell Gymraeg.

5.2 Nifer yr ohebiaeth a anfonwyd mewn ffurf Ddwyieithog yn 2014/15

Gweithgarwch	Cyfanswm yr ohebiaeth
Pecynnau croeso dwyieithog ar gyfer rhoddwyr organau	52,430
Llythyrau cadarnhau dwyieithog ar gyfer rhoddwyr organau	643
Llythyrau dwyieithog yn gwahodd rhoi gwaed	88,855
Gohebiaeth ddwyieithog arall yn ymwneud â rhoi gwaed	16,207
Posterï dwyieithog yn hyrwyddo sesiynau rhoi gwaed	5,206
Cyfanswm yr ohebiaeth yn Gymraeg	163,841

Mae nifer yr ohebiaeth a anfonir yn ddwyieithog neu'n Gymraeg yn unig yn cyfrif am 0.009% o gyfanswm ein gohebiaeth.

5.3 Nifer y Galwadau yr oedd staff Cymraeg eu hiaith wedi delio â hwy yn eich canolfan gyswllt yn 2014/15

Gweithgarwch	Galwadau misol ar gyfartaledd
Galwadau o linellau tir	39
Galwadau yn gofyn am gael siarad yn Gymraeg	5
Galwadau a wnaethpwyd i roddwyr gwaed yn Gymraeg	2,600

Roedd nifer cyfartalog y galwadau o linellau tir yn Gymraeg yn cyfrif am lai na 0.1% o'r galwadau a gafwyd yn y Ganolfan Gyswllt Genedlaethol.

5.4 Nifer y cwynion yn gysylltiedig â Deddf yr Iaith Gymraeg yn ystod oes ein Cynllun

Yn ystod y cyfnod ers gweithredu'r Cynllun rydym wedi cael cyfanswm o 44 o gwynion am y ddarpariaeth yn Gymraeg.

Blwyddyn	Categori'r gwyn	Nifer
2009/10		14
	Anhawster gael trwodd at siaradwr Cymraeg ar y llinell gymorth	2
	Diffyg tudalennau Cymraeg ar y wefan waed	2
	Dim deunydd dwyieithog yn y sioe deithiol	1
	Nid oedd staff rhoi gwaed yn gwisgo bathodynau 'Iaith Gwaith'	1
	Nid oedd hysbyseb yr ymgyrch genedlaethol ar roi organau yn ddwyieithog	1
	Nid oedd yn dymuno cael gohebiaeth yn Gymraeg	7
2010/11		7
	Anhawster gael trwodd at siaradwr Cymraeg ar y llinell gymorth	5
	Nid oedd llythyrau'n cael eu hanfon yn Gymraeg bob tro	1
	Diffyg tudalennau Cymraeg ar y wefan waed	1
2011/12		13
	Anhawster gael trwodd at siaradwr Cymraeg ar y llinell gymorth	7
	Ddim wedi cael yr holl ohebiaeth yn Gymraeg	2
	Nid oedd yn dymuno cael gohebiaeth yn Gymraeg	3
	Yn dymuno cael gwobr am roi gwaed yn Gymraeg	1
2012/13		6
	Anhawster gael trwodd at siaradwr Cymraeg ar y llinell gymorth	3
	Ddim wedi cael yr holl ohebiaeth yn Gymraeg	1
	Nid oedd yn dymuno cael gohebiaeth yn Gymraeg	2
2013/14		
	Anhawster gael trwodd at siaradwr Cymraeg ar y llinell gymorth	3
	Ddim wedi cael yr holl ohebiaeth yn Gymraeg	1
2014/15		1
	Anhawster gael trwodd at siaradwr Cymraeg ar y llinell gymorth	1

5.5 Gwasanaethau cyfieithu

Mae ein holl gyfieithiadau'n cael eu cyflenwi gan gwmni cyfieithu achredig yn y Gogledd. Hefyd, rydym yn gwirio cyfieithiadau ar hap gydag aelodau staff Cymraeg eu hiaith sy'n gyfarwydd â'r termau Cymraeg sy'n gysylltiedig â rhoi gwaed.

Mae staff Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG wedi rhoi cyfweiliadau ar raglenni Cymraeg ac rydym yn parhau i chwilio am gyfleoedd i hyrwyddo ein negeseuon ar roi gwaed yn y cyfryngau Cymraeg.

6. Adolygu'r Cynllun

Cafodd yr adroddiad gwerthuso hwn ei baratoi yn dilyn archwiliad llawn o'n Cynllun Iaith Gymraeg. Bydd yr archwiliad a'r adroddiad gwerthuso yn cael eu defnyddio i'n helpu i ddatblygu cynllun wedi'i ddiweddarau mewn ymateb i'r Safonau newydd sy'n cael eu cyflwyno.

7. Casgliad

Mae Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG wedi ymrwymo i drin y Gymraeg yn gydradd â'r Saesneg. Rydym yn ymdrechu i ddarparu gwasanaeth o safon uchel yn y Gymraeg i'n rhoddwyr ac i deuluoedd rhoddwyr yng Nghymru. Byddwn yn defnyddio cyflwyno Safonau'r Gymraeg fel cyfle i adolygu ein gwasanaethau yn y Gymraeg i sicrhau ein bod yn parhau i ddiwallu anghenion ein rhoddwyr a theuluoedd rhoddwyd yng Nghymru.

Léonie Austin

Cyfarwyddwr Cyfathrebu

Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG